South Wales
Fire and Rescue Service

Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

Cynllun Lleihau Risg
2012/2013

CODI YMWYBYDDIAETH - LLEIHAU PERYGL

Cynllun Gweithredu Lleihau Risg 2012/2013

Rhagair gan y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Tân

Y Cyng. Anthony Ernest
Cadeirydd Awdurdod
Tân ac Achub De Cymru

Andy Marles
Prif Swyddog Tân

Croeso i'r Cynllun Gweithredu Lleihau Risg diweddaraf. Mae'r ddogfen hon yn gyfle i chi ystyried a gwneud sylwadau ar y ffordd yr ydym yn bwriadu defnyddio ein hadnoddau gan wneud y mwyaf ohonynt er mwyn ein galluogi i barhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol ar eich cyfer chi a chymunedau De Cymru.

Yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, rydym ni ynghyd â gwasanaethau cyhoeddus eraill yn wynebu heriau newydd. Rydym yn parhau i edrych yn agos ar y ffyrdd yr ydym yn darparu gwasanaethau er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud hynny mor effeithiol ac effeithlon â phosib gan gymryd pob cyfle i gydweithio ag eraill er mwyn lleihau risg. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn darparu'r gwasanaeth gorau posib i wneud ein cymunedau'r llefydd mwyaf diogel i fyw, gweithio ac ymweld â hwy.

Rydym yn parhau i adeiladu ar yr adborth llwyddiannus a dderbyniwyd oddi wrth Swyddfa Archwilio Cymru, a nododd yn eu Hadroddiad Gwella Blynyddol bod 'arweinyddiaeth effeithiol a threfniadau corfforaethol cadarn yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer gwella perfformiad'. Maent yn teimlo ein bod yn debygol o wella pethau ar gyfer y bobl sy'n byw yn ein hardal oherwydd bod gennym arweinyddiaeth gadarn a bod pethau'n cael eu rheoli'n dda.

Yn y cynllun hwn rydym wedi amlinellu'r meysydd yr ydym yn ystyried i fod yn flaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod, 2012/2013, gan sicrhau ein bod yn cyflawni ein dyletswydd gyffredinol i wella ac yn nodi sut yr ydym yn bwriadu defnyddio ein hadnoddau. Mae ein holl weithgareddau yn gysylltiedig â'r pum amcan gwella ac mae'r fframwaith cynllunio yno i sicrhau bod ein harian a'n hegni, ar adeg pan mae adnoddau'n gyfyngedig, yn cael eu cyfeirio at yr amcanion strategol hyn.

Diolch am dreulio amser yn darllen y cynllun hwn, fel yn y gorffennol, mae gennym ddiddordeb mawr yn eich barn am ein cynigion ar gyfer y blynyddoedd i ddod a gobeithio y byddwch yn cymryd y cyfle i gysylltu â ni i gael dweud eich dweud. Bydd pob ymateb yn cael ei ystyried cyn cyhoeddi'r Cynllun Gweithredu Lleihau Risg terfynol, a fydd yn cael ei gyfuno gyda'r Cynllun Gwella blynyddol a'i gyhoeddi ym mis Hydref 2011.

Cyflwyniad

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC) yn gwasanaethu ardal tua 2,811 cilomedr sgwâr (1,085 milltir sgwâr) sy'n cynnwys 10 Awdurdod Unedol. Mae'n un o'r gwasanaethau tân ac achub mwyaf ei faint yn y DU. Mae'r ardal yn cynnwys cymoedd De Cymru, ardaloedd mawr o gefn gwlad, safleoedd diwydiannol a masnachol, meysydd awyr, dociau a dwy ddinas Casnewydd a Chaerdydd. Mae'r ffaith fod y brifddinas yn ein hardal yn creu nifer o faterion sylweddol ychwanegol. Yn seiliedig ar yr amcangyfrif diweddaraf sydd ar gael mae 1,446,000 o bobl yn byw o fewn ein hardal mewn 605,000 o gartrefi.

Yn 2010/2011 derbyniwyd tua 47,000 o alwadau brys, gan arwain at fynychu tua 23,200 o ddigwyddiadau. Mae hwn yn gynnydd o dderbyn dros 3,000 o alwadau a mynychu dros 600 o ddigwyddiadau yn fwy na'r flwyddyn flaenorol. Mae'r galwadau brys yn cael eu rheoli gan y Gwasanaeth yn ein Hystafell Rheoli Tân ym Mhont-y-clun.

Ar hyn o bryd rydym yn cyflogi dros 2100 o staff, yn cynnwys ymladdwyr tân llawn amser a rhan amser, staff yr ystafell rheoli tân a staff cymorth. Mae'r rheolwyr yn cael eu harwain gan y Prif Swyddog Tân sy'n cael cymorth wrth bedwar Cyfarwyddwr. Ers 1996 maent wedi bod o dan arweiniad yr Awdurdod Tân ac Achub sy'n cynnwys 24 Cynghorydd etholedig o'r deg awdurdod lleol yr ydym yn eu gwasanaethu. Mae gennym 50 gorsaf dân a 64 injan dân ar y rheng flaen yn ogystal ag amrywiaeth o gerbydau arbenigol er mwyn ymateb i ystod eang o ddigwyddiadau brys.

Mae'r cynllun hwn yn amlinellu'r heriau mawr sy'n ein hwynebu wrth i ni barhau i ddarparu gwasanaethau o safon uchel sy'n gwneud gwahaniaeth i'n cymunedau, yn ogystal â sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei wario yn y ffordd gywir. Mae'r cynllun yn adeiladu ar y Cynllun Lleihau Risg 'De Cymru Mwy Diogel' a gyhoeddwyd yn 2007, a'r diweddariadau a'r cynlluniau gweithredu blynyddol dilynol sydd wedi'u cyhoeddi ers hynny.



Risg Corfforaethol

Un o'r risgiau uchaf ar ein Cofrestr Risg Corfforaethol yw os na fyddwn yn adolygu'r dyraniad a'r defnydd o'n hadnoddau (arian, pobl ac asedau) i sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon, ac os bydd cyllidebau yn gostwng mewn termau real yna mae risg o ran darparu gwasanaeth i'r cyhoedd. Cafodd y risg hwn ei ganfod am y tro cyntaf yn 2009 ac ers hynny mae ein Pwyllgor Cyllid, Archwilio a Rheoli Perfformiad wedi craffu ar ein cyllidebau ac mae Gweithgor Cyllid wedi'i sefydlu ac wedi gwneud argymhellion i'r Awdurdod Tân ar sut i liniaru'r risg hwn. Mae strategaethau a chynlluniau amrywiol yn cael eu rhoi ar waith ar hyn o bryd i sicrhau fod asedau allweddol yn cael eu rheoli'n ddarbodus.

Un cynllun o'r math hwn yw'r Cynllun Cyllid Tymor Canolig 2010-2014, sef y cynllun cyllid cyntaf o'r math hwn yr ydym wedi'i gynhyrchu. Cafodd y cynllun ei ysgrifennu adeg cyfnod o ansicrwydd a thrafferth ariannol, gan wybod y byddai cyllidebau gwasanaethau cyhoeddus yn wynebu pwysau difrifol yn y blynyddoedd i ddod. Oherwydd y cyd-destun hwn mae cynllunio tymor canolig yn fwy pwysig nag erioed.

Oherwydd pwysau ariannol mae'r gyllideb ar gyfer 2011/2012 wedi gostwng gan £1.1 miliwn o gyllideb 2010/2011, gan arbed 1.5% o'i gymharu â'r gostyngiad ar gyfartaledd ar draws Cymru o 1.4%. Oherwydd hyn, mae'r gyllideb refeniw ar gyfer 2011/2012 wedi'i gosod ar £71,157,615 a byddwn yn parhau i gynllunio ar gyfer y blynyddoedd i ddod o fewn y cyfyngiadau economaidd hyn.

Mae'r gyllideb gyfalaf ar gyfer 2011/2012 wedi'i gosod ar £5,391,000; am nifer o flynyddoedd mae'r Awdurdod wedi gweithredu gyda chynllun tymor canolig (pedair blynedd) ar gyfer ei fuddsoddiadau cyfalaf. Mae gennym stoc o adeiladau sy'n heneiddio a rhestr sylweddol o anghenion cynnal a chadw ar gyfer ein heiddo. Mae hyn, ynghyd â maint y buddsoddiadau newydd sydd eu hangen wedi arwain at gytuno ar gynllun strategol pymtheg mlynedd fel un addas, yn ogystal â chynllun tactegol pedair blynedd fwy manwl i gyd fynd gyda chyfnod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Mae Cynllun Rheoli Asedau strategol yn ei le ac mae cynlluniau rheoli cynorthwyol ar gyfer cerbydau ac eiddo wedi'u rhoi ar waith. Mae cynlluniau ar gyfer rheoli peiriannau ac offer, asedau bychan, TGCh, tanwydd ac offer personol yn cael eu datblygu.

Risg Cymunedol

Rydym yn cydnabod y cymunedau amrywiol yr ydym yn eu gwasanaethu a'r amrywiaeth o risgiau y maent yn eu hwynebu sy'n cynnwys risg masnachol a busnes, risg preswyl, gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd a throseddau yn ymwneud â thân. Er mwyn lleihau'r risgiau hyn mae gennym amrywiaeth o adnoddau wedi'u targedu yn eu lle, gan gynnwys y canlynol:

- Diogelwch Tân Deddfwriaethol, sef gorfodaeth y Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005. Mae timoedd yn targedu adeiladau risg uchel, yn enwedig rhai â llety cysgu. Eu nod cychwynnol yw addysgu pobl o ran atal tân a lleihau risg.
- Mae Diogelwch Cymunedol a gweithio mewn Partneriaeth yn ganolog i'n gwaith o leihau risg yn gyffredinol. Mae'r pwyslais cynyddol ar waith diogelwch cymunedol wedi ein harwain i ymgysylltu gyda chymunedau lleol er mwyn hyrwyddo negeseuon diogelwch tân yn effeithiol. Mae gweithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau eraill yn galluogi pob parti i gael y defnydd gorau posib o'u hadnoddau ac osgoi dyblygu gwaith. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar ddiogelwch yn y cartref trwy ddarparu archwiliadau diogelwch tân yn y cartref; gwasanaethau plant gydag adnoddau addysgiadol sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm cenedlaethol; ymchwiliadau i droseddau tân a gwaith aml asiantaeth er mwyn mynd i'r afael â digwyddiadau tanau bwriadol a gwasanaethau ieuenctid drwy fentrau wedi'u targedu gyda Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol a Gwasanaethau Troseddu Ieuenctid.
- Mae gostwng gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd wedi bod yn darged allweddol ar gyfer lleihau risg dros y blynyddoedd diwethaf. Mae uned diogelwch ar y ffyrdd arbenigol yn cefnogi rhwydwaith o gynghorwyr diogelwch ar y ffyrdd ac yn rheoli mentrau fel y fenter 'Reidio Allan, Reidio'n Gywir', gyda'r nod o ddatblygu a gwella sgiliau grwpiau o bobl sy'n gyrru beiciau modur sy'n wynebu risg er mwyn gostwng marwolaethau ac anafiadau.

Diogelwch Ymladdwyr Tân

Rydym yn cydnabod bod ein Hymladdwyr Tân yn ymateb i amrywiaeth gynyddol iawn o argyfyngau ar draws ardal De Cymru. Mae'r risgiau maent yn wynebu adeg y digwyddiadau hyn yn berthnasol i'r math o ddigwyddiad yn ogystal â'r lleoliad, prosesau masnachol a pheryglon eraill ar y safle.

Er mwyn sicrhau bod gan ein Hymladdwyr Tân y wybodaeth gorau posib sydd ar gael am y risgiau hyn, rydym yn parhau i fuddsoddi amser ac adnoddau i gynhyrchu a datblygu:

- Trefniadau Gweithredu Safonol – ar gyfer mathau gwahanol o ddigwyddiadau;

- Gwybodaeth am Safleoedd Penodol – gwybodaeth weithredol allweddol ar amrywiaeth eang o safleoedd;
- Cynlluniau Tactegol Gweithredol – cynlluniau gweithredu mwy manwl ar gyfer safleoedd â risg mwy uchel.

Rydym yn cydnabod mai dim ond rhan o'r ateb yw'r wybodaeth sylfaenol. Rhaid i ni hefyd sicrhau bod y wybodaeth ar gael i'n Hymladdwyr Tân mewn fformat y gellir cael mynediad ati a'i defnyddio yn hawdd adeg digwyddiad. Felly, mae ein system Cudd-wybodaeth Weithredol yn casglu a phrosesu gwybodaeth ar gyfer ei defnyddio, yn cynnal y wybodaeth ddiweddaraf ac yn ei hanfon i'r Teclynnau Data Symudol sydd ar beiriannau tân ar y rheng flaen.

Yn anffodus, mae ein Hymladdwyr Tân yn parhau i wynebu ymddygiad gwrthgymdeithasol ymosodol a threisgar ar adegau wrth gyflawni eu dyletswyddau. Rydym yn cymryd unrhyw ddigwyddiad treisgar yn erbyn ein staff yn ddifrifol iawn ac rydym wedi gosod offer Camerâu Cylch Cyfyng ar ein holl beiriannau ar y rheng flaen yn ogystal â chitiau poer i gasglu tystiolaeth. Mae gennym ddealltwriaeth gyda'r heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron, sydd hefyd wedi ymrwymo i orfodi erlyniad ar gyfer pob person sy'n cyflawni gweithredoedd treisgar.

Trwy ymchwil a datblygiad wedi'i dargedu rydym yn parhau i sicrhau gwelliant parhaus sydd wedi'i gydlynu ac sy'n seiliedig ar anghenion o ran darparu offer gweithredol fel y systemau rheoli a chyfathrebu yn yr ystafell rheoli tân ac ar safle digwyddiadau er mwyn anfon cymorth a rheoli digwyddiadau.

Mae Firelink wedi datblygu un system gyfathrebu ddigidol newydd ar gyfer ardal eang sy'n galluogi Ymladdwyr Tân i gyfathrebu ar draws ffiniau Gwasanaethau Tân ac Achub a gyda gwasanaethau brys eraill. Gan ystyried swyddogaeth yr ystafell rheoli tân, cafodd set o nodau strategol eu diffinio a oedd yn cefnogi'r bwriad i gynyddu cydnerth, gallu a chydweithio rhwng Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru gan amharu cyn lleied â phosib ar y strwythurau cyfredol o fewn ystafelloedd rheoli tân.

Oherwydd natur gymhleth ac amrywiol rôl y criwiau gweithredol mae cynnal gweithlu sydd â sgiliau, sy'n gymwys ac sy'n wybodus yn rhywbeth y mae'n rhaid i'r Gwasanaeth ei wneud. Byddwn yn parhau i gyflawni hyn drwy gynnal hyfforddiant ar yr wylfa, datblygu sgiliau craidd a hyfforddiant arbenigol yn lleol a thrwy'r Ganolfan Hyfforddi a Datblygu ym Mhorth Caerdydd. Mae gan y Gwasanaeth raglen Adolygu Datblygiad Personol, ac ynghyd â rhaglenni hyfforddiant sy'n cael eu trefnu bydd hyn yn sicrhau bod gennym y bobl gywir gyda'r sgiliau cywir yn y lleoliad cywir ar yr adeg gywir er mwyn gwasanaethu cymunedau De Cymru.

FIRE
INVESTIGATION

Amcanion Gwella 2012/2013

Bob blwyddyn, rydym yn gosod amcanion gwella i'n hunain sy'n nodi'r blaenoriaethau ar gyfer lleihau risg i'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu yn Ne Cymru. Mae'r holl gamau gweithredu arfaethedig sydd wedi'u hamlinellu yn ein cynllun lleihau risg a'n fframwaith rheoli perfformiad yn cysylltu'n uniongyrchol â chyflawni'r amcanion hyn, er mwyn sicrhau bod ein hymdrechion yn canolbwyntio ar wneud y mwyaf o'n cyfleoedd i wella yn barhaus a diogelu'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r mathau o ddigwyddiadau yr ydym wedi mynychu dros y ddwy flynedd ddiwethaf.[1]

Math y digwyddiad	2008/2009	2009/2010	2010/2011
Tân	10,741	10,683	11,556
Larwm Diangen	9,300	8,331	8,548
Argyfyngau nad oeddent yn ymwneud â thân	4,012	3,606	3,120
Cyfanswm	**24,053**	**22,620**	**23,224**

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd gweithgareddau atal. Y llynedd gwnaeth ein gorsafoedd gynnal dros 26,000 o archwiliadau diogelwch tân yn y cartref, gan helpu pobl i ddod o hyd i risgiau, gosod larymau mwg am ddim a rhoi cyngor ar sut i wneud cartrefi yn fwy diogel. Yn 2010/2011 gwnaethom fynychu 752 o danau damweiniol mewn cartrefi, ffigwr isel yr ydym yn bwriadu parhau i'w ostwng er mwyn diogelu bywydau.

Mae diogelwch ar y ffyrdd hefyd yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol; er nad yw'n ddyletswydd statudol rydym yn parhau i gydweithio ag asiantaethau eraill i wella diogelwch ar ein ffyrdd. Yn 2010/2011 gwnaethom fynychu 1,079 o ddigwyddiadau traffig ar y ffyrdd lle cafodd pobl eu rhyddhau o'u cerbydau mewn 253 o'r digwyddiadau; mae hyn yn cymharu gyda 1,427 yn 2009/2010 gan ryddhau pobl mewn 301 o ddigwyddiadau.

Dyma ein hamcanion gwella ar gyfer 2012/2013; dyma'r nodau strategol yr ydym yn gosod i'n hunain ar gyfer y flwyddyn i ddod. Pan fyddwn yn gosod yr amcanion byddwn yn ystyried yr hyn yr ydym wedi'i gyflawni yn y blynyddoedd blaenorol a sut y gallwn wneud gwahaniaeth cadarnhaol i'n cymunedau drwy ystyried canlyniadau ein gweithgareddau ar ein cymunedau. Bydd camau gweithredu manwl yn nodi sut bydd pob adran o'r sefydliad yn gweithio tuag at yr amcanion hyn wedi'u cynnwys yn ein cynlluniau gwasanaeth ac wedi'u crynhoi yn ein Cynllun Gwella, ynghyd â manylion am pa mor dda yr ydym wedi perfformio, ein targedau ar gyfer y dyfodol a sut yr ydym yn cymharu gydag awdurdodau tân ac achub eraill; bydd y cynllun hwn yn cael ei gyhoeddi ym mis Hydref.

[1]Hyd amser ysgrifennu'r ddogfen hon, gellir tanddatgan y nifer o ddigwyddiadau yn 2010/11 - aros am wybodaeth gyflawn.

Ein Cymunedau

Cysuro, addysgu a diogelu ein Cymuned rhag effeithiau tân, gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd ac argyfyngau eraill pan fyddant yn digwydd.

Rydym yn bwriadu gwneud hyn drwy:

- Barhau i weithio'n rhagweithiol yn unigol ac ar y cyd â sefydliadau eraill i ddarparu addysg am atal tanau a diogelwch ar y ffyrdd, gan ganolbwyntio ar grwpiau risg uchel.
- Sicrhau bod y bobl gywir yn y lleoliad cywir ar yr adeg gywir gyda'r sgiliau cywir, a darparu'r peiriannau mwyaf addas yn y lleoliadau mwyaf addas i'n galluogi i ymateb i ddigwyddiadau brys yn gyflym ac yn effeithiol.

Ein Pobl

Parhau i ddatblygu gweithlu ymatebol a chreadigol sy'n ymarfer ein gwerthoedd.

Rydym yn bwriadu gwneud hyn drwy:

- Sicrhau bod gennym weithlu proffesiynol a chymwys sy'n darparu a chefnogi ein gofynion gweithredol a gofynion busnes.
- Rhoi'r strategaeth pobl ar waith er mwyn bod yn drosfwaol wrth ddelio â sut mae pobl yn cael eu defnyddio, rheoli a'u datblygu o fewn y sefydliad a sut mae disgwyl iddynt ymddwyn.

Ein Hadnoddau

Sicrhau bod ein hadnoddau a'n hasedau'n cael eu defnyddio'n effeithiol ac yn effeithlon er mwyn cefnogi darparu gwasanaeth.

Rydym yn bwriadu gwneud hyn drwy:

- Sicrhau bod lleoliad a threfniadau criwio pob gorsaf dân ac achub yn bodloni anghenion cyfredol y gymuned y mae'n ei gwasanaethu, a'i hanghenion ar gyfer y dyfodol.
- Rhoi'r cynlluniau rheolaeth sydd wedi'u hamlygu yn y Strategaeth Rheoli Asedau ar waith.

Ein Sefydliad

Gwella prosesau busnes mewnol i sicrhau'r defnydd mwyaf effeithiol ac effeithlon o adnoddau ariannol ac adnoddau dynol.

Rydym yn bwriadu gwneud hyn drwy:

- Defnyddio ffordd o feddwl sy'n ymwneud â systemau strwythuredig ar gyfer prosesau busnes i ddileu gwastraff a symleiddio systemau.
- Integreiddio systemau TGCh craidd ar draws y sefydliad fel y gall pob adran rannu gwybodaeth mewn ffordd symlach a chyfathrebu mewn ffordd fwy effeithiol.

Cynaliadwyedd

Hyrwyddo sefydliad cynaliadwy sy'n cyfrannu at gymunedau lleol cynaliadwy.

Rydym yn bwriadu gwneud hyn drwy:

- Ehangu mentrau addysg cymunedol i leihau effaith tanau bwriadol ar ein hamgylchedd naturiol ac amgylchedd adeiledig.
- Rhoi ein cynllun rheoli tir ac adeiladau ar waith i wneud gorsafoedd tân ac achub yn llefydd diogel a chynaliadwy i weithio ynddynt a sicrhau eu bod mewn lleoliadau addas er mwyn darparu cyfleuster ar gyfer y gymuned.

FIRE
CN59 AFX

Prosiectau'r Cynllun Lleihau Risg

Roedd Cynllun Lleihau Risg 2011/2012 yn amlinellu'r naw prosiect yr oeddwn yn teimlo y byddent yn ein galluogi i wella'r ffordd yr ydym yn gweithio yn barhaus a chynnal ein safon uchel o ran darparu gwasanaeth wrth ystyried yr heriau ariannol mae'r sefydliad yn wynebu. Gwnaethom gynnal ymarfer ymgynghori dwys gyda'n cymunedau, rhanddeiliaid a staff am y prosiectau arfaethedig. O ganlyniad i wrando'n ofalus ar eu barn cafodd newidiadau a argymhellwyd ganddynt eu gwneud.

Rydym wedi ymrwymo i gyflawni canlyniadau ar gyfer y prosiectau hyn. Gan ystyried y cyfyngiadau cyfredol ar adnoddau a chyllidebau rydym wedi penderfynu parhau i ganolbwyntio ar gyflawni'r prosiectau cyfredol hyn gan beidio â chyflwyno unrhyw beth newydd ar hyn o bryd. Felly, mae'r tabl canlynol yn amlinellu pob prosiect gan grynhoi'r hyn a nodwyd yn wreiddiol fel y nod i'w gyflawni, y cynnydd hyd hyn a'r sefyllfa o ran datblygu ymhellach.

Am fod y prosiectau yn rhai cyfredol, bydd cynigion ac argymhellion yn cael eu gwneud pan fydd adolygiad llawn wedi'i gwblhau gan fyrddau'r rhaglen. Bydd unrhyw gynigion neu argymhellion ond yn cael eu rhoi ar waith wedi cwblhau proses ymgynghori a thrafodaeth lawn.

Prosiect	Yr hyn a nodwyd y byddwn yn ei gyflawni	Cynnydd hyd hyn	Sefyllfa ar gyfer 2012/2013
Dyletswydd Hyblyg	Y cynnig gwreiddiol oedd newid y ffordd yr oedd tair gorsaf llawn amser yn cael eu criwio i fod ar y system hunan ddyletswydd. Yn dilyn adborth o'r broses ymgynghori cafodd ei newid i fod yn system griwio hyblyg ar gyfer yr 20 gorsaf llawn amser. Mae'r buddion yn cynnwys dim gostyngiad o ran lefel y gwasanaeth i'r cyhoedd a chyfraniad sylweddol tuag at gyflawni'r arbedion effeithiolrwydd sydd wedi'u hamlinellu yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.	Yn dilyn trafodaethau llwyddiannus gyda chyrff cynrychioli, cafodd y system dyletswydd hyblyg ei roi ar waith ym mis Ebrill 2011. Bydd gostyngiad o £1,465,000 yn y gyllideb cyflogau blynyddol wedi'i gyflawni erbyn 2014/2015.	Mae'r prosiect hwn wedi'i roi ar waith ac mae'n parhau i gael ei fonitro a'i adolygu. Dylai'r prosiect fod wedi'i gyflawni'n llawn erbyn 2014/2015 yn ôl cyfraddau ymddeol cyfredol.
Gwasanaeth Tân	Mae'r adolygiad cymhleth hwn yn ystyried y cyfraniad i'r cyhoedd a diogelwch ymladdwyr tân yn ôl pob gorsaf dân ac achub unigol.	Ymchwil yn parhau	Prosiect mwy hirdymor yn ddibynnol ar y canlyniadau ac unrhyw newidiadau arfaethedig o brosiectau eraill, felly mae'r gwaith yn parhau. Disgwylir ei gwblhau yn ystod 2012/2013.

Prosiect	Yr hyn a nodwyd y byddwn yn ei gyflawni	Cynnydd hyd hyn	Sefyllfa ar gyfer 2012/2013
Peiriannau Pwmpio Eilaidd	Archwilio'r cyfraniad i ddiogelwch y cyhoedd ac ymladdwyr tân ac effeithiolrwydd cost pob peiriant pwmpio eilaidd gan gynnwys lleoliadau, data digwyddiad, cyfraddau galwadau a threfniadau criwio.	Mae'r ymchwil wedi dangos bod lleoliadau'r peiriannau pwmpio eilaidd yn bodloni anghenion cyfredol y gwasanaeth a'r cyhoedd, yn erbyn y safonau cyfredol. Mae'r adolygiad wedi canfod rhai anghysondebau o ran criwio peiriannau pwmpio eilaidd ar draws y Gwasanaeth.	Mae gwaith yn ymwneud â'r prosiect hwn yn parhau. Bydd yr anghysondebau criwio yn cael eu hadolygu a bydd argymhellion priodol yn cael eu gwneud. Disgwylir ei gwblhau yn ystod 2012/2013.
Peiriannau Arbenigol	Archwilio cyfraniad ac effeithiolrwydd cost pob peiriant arbenigol gan gynnwys lleoliadau, data digwyddiadau, cyfraddau galwadau a threfniadau criwio.	Mae opsiynau amrywiol o ran gwaredu neu symud rhai o'r peiriannau arbenigol mwy cyffredin gan gynnwys tendrau achub, erialau a bosers dŵr yn cael eu harchwilio a'u modelu.	Bydd gwaith yn ymwneud â'r prosiect hwn yn parhau. Disgwylir ei gwblhau yn 2012/2013.

Prosiect	Yr hyn a nodwyd y byddwn yn ei gyflawni	Cynnydd hyd hyn	Sefyllfa ar gyfer 2012/2013
Darpariaeth Rheolwyr Tactegol Gweithredol	Sicrhau bod y nifer priodol o reolwyr gyda'r gallu rheoli priodol neu'r sgiliau arbenigol yn cyrraedd digwyddiad o fewn cyfnod priodol i sicrhau ei fod yn dod i ganlyniad boddhaol.	Mae data hanesyddol wedi'i ddadansoddi ynghyd â phroffilio digwyddiadau ar raddfa fawr i ddod o hyd i anghenion disgwyliedig ar gyfer y dyfodol. Yn dilyn ymgynghori â thrafod gyda'r gweithlu cytunwyd y byddai pum swydd Rheolwr Grŵp yn cael eu dileu ac y byddai newidiadau i brotocolau hyfforddiant yn cael eu rhoi ar waith er mwyn cynyddu gallu gweithredol rheolwyr ar bob lefel. Mae'r prosiect hwn yn arbed £325,000 y flwyddyn.	Bydd pum swydd yn cael eu dileu o'r strwythur yn 2011/2012 a bydd yr argymhellion hyfforddiant yn cael eu rhoi ar waith yn 2012/2013.

Prosiect	Yr hyn a nodwyd y byddwn yn ei gyflawni	Cynnydd hyd hyn	Sefyllfa ar gyfer 2012/2013
Rheolwyr Canol a Strwythur Iwnifform Dyletswydd Dydd	Adolygiad o strwythurau sefydliadol yn cynnwys rheolwyr canol gweithredol a rheolwyr canol nad ydynt yn weithredol ar draws yr holl wasanaeth i sicrhau bod y strwythurau wedi'u cynllunio i ddarparu gwasanaethau effeithiol ac effeithlon i'r cyhoedd.	Mae arbedion wedi'u canfod ac wedi'u rhoi ar waith. Mae chwe swydd rheolwr canol heb iwnifform wedi'i dileu o'r sefydliad. Mae'r prosiect hwn yn arbed £220,000 y flwyddyn. Mae'r prosiect adolygu dyletswydd dydd yn ceisio paru adnoddau gyda gweithgareddau, gan alluogi personél i weithio mewn modd hyblyg.	Bydd y prosiect hwn yn cael ei ehangu i edrych ar swyddi rheolwyr goruchwyliol yn y sefydliad. Disgwylir iddo gael ei gwblhau yn ystod 2012/2013.

Prosiect	Yr hyn a nodwyd y byddwn yn ei gyflawni	Cynnydd hyd hyn	Sefyllfa ar gyfer 2012/2013
Strwythurau Sefydliadol	Dod o hyd i welliannau yn y prosesau busnes sy'n cefnogi gweithgareddau busnes craidd. Bydd yr adolygiad yn dod o hyd i gyfleoedd posib i wneud arbedion effeithlonrwydd a bod yn sail i newidiadau posib i strwythurau sefydliadol. Hefyd, cyflawni gwelliannau pellach o ran y berthynas allweddol rhwng y swyddogaethau cymorth a'r ddarpariaeth gwasanaeth ar y rheng flaen.	Mae hwn yn brosiect hirdymor sydd wedi gosod yr egwyddorion ar gyfer yr holl adolygiadau o brosesau. Mae tîm y prosiect wedi ailgynllunio'r broses absenoldeb salwch gan arbed amser o ran cofnodi a monitro absenoldeb. Mae rhwydwaith staff wedi'i sefydlu i alluogi pob adran i gynnal eu hadolygiadau eu hunain.	Bydd gwaith yn ymwneud â'r prosiect hwn yn parhau a bydd yr egwyddorion yn parhau i gael eu rhoi ar waith ar draws y sefydliad cyfan. Does dim dyddiad cwblhau ar gyfer y prosiect hwn am y bydd y gwasanaeth yn edrych ar bob proses yn ei thro.

Prosiect	Yr hyn a nodwyd y byddwn yn ei gyflawni	Cynnydd hyd hyn	Sefyllfa ar gyfer 2012/2013
Lwfansau Goramser ac Allan o Oriau	Ystyried amrywiaeth o opsiynau ac argymhellion ar gyfer rheoli gweithgareddau yn wahanol gan sicrhau bod lwfansau goramser ac allan o oriau yn cael eu rhoi yn gyson a phan maent yn angenrheidiol yn ôl anghenion busnes yn unig.	Mae'r elfennau goramser y gellir eu rheoli wedi'u canfod, ac rydym hefyd wedi dadansoddi talu lwfansau allan o oriau. Mae tîm y prosiect wedi canolbwyntio ar ddatblygu strategaethau er mwyn gostwng goramser y gellir ei reoli. Mae rhagor o waith yn cael ei drafod gan y Gweithgor Cyllid o ran yr amrywiaeth o lwfansau sy'n cael eu talu. Cwmpas wedi'i ehangu i edrych ar yr holl lwfansau.	Bydd gwaith yn ymwneud â'r prosiect hwn yn parhau. Bydd £100,000 yn cael ei arbed yn ystod 2011/2012.

Prosiect	Yr hyn a nodwyd y byddwn yn ei gyflawni	Cynnydd hyd hyn	Sefyllfa ar gyfer 2012/2013
Systemau TGCh	Adolygu systemau TGCh craidd i ganfod seilwaith cyffredin gyda safonau a galluoedd cyffredin y gellir ei rhoi ar waith ar draws y sefydliad cyfan er mwyn integreiddio adrannau a dileu'r angen i ddyblygu cofnodi data, gwella cyfathrebu a sicrhau bod data yn cael ei ddal yn fwy effeithiol.	Mae ymchwil wedi'i wneud ar y feddalwedd a chaledwedd TGCh gyfredol a chostau trwyddedu, swyddogaeth, ac anghenion ar gyfer y dyfodol a fydd yn sail i'r achos busnes. Mae'r strategaeth TGCh hirdymor gyfredol wedi'i hadolygu ac rydym wedi ymchwilio opsiynau fel cydweithio, prynu ein system ein hun, prynu'r system hybrid gorau posib neu gydgysylltu systemau cyfredol.	Mae'r prosiect hwn yn y cyfnod cwmpasu a bydd yn parhau yn ystod 2012/2013.

Adborth

Heb eich adborth ni allwn ystyried yn llawn buddiannau'r cyhoedd, ein hasiantaethau partner a'n gweithlu.

Fe'ch gwahoddwn i ystyried ein hamcanion gwella a'n cynigion prosiect a rhoi eich barn ar eu gwerth a'u pwysigrwydd.

Bydd pob ymateb yn cael ei ystyried gan Awdurdod Tân ac Achub De Cymru ac Uwch Dîm Rheoli'r Gwasanaeth cyn mabwysiadu Cynllun Gwella 2012/13 ym mis Hydref 2011.

Cynhelir y cyfnod ymgynghori ffurfiol rhwng 23 Mai a 15 Awst.

Cysylltwch â'r Dirprwy Brif Swyddog Tân Huw Jakeway yn ystod y cyfnod ymgynghori:

Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru,
Parc Busnes Forest View, Llantrisant, CF72 8LX

ymgynghoriad@decymru-tan.gov.uk

C500
hwales-fire.gov.

Cwestiwn 1	Cytuno	Anghytuno	Dim Barn
Roedd y cynllun yn hawdd i'w ddarllen a'i ddeall			

Ar gyfer pob un o'r datganiadau canlynol, nodwch yr ateb mwyaf addas ar gyfer pob cwestiwn gan ddefnyddio'r raddfa ganlynol rhwng 1 a 5.

1 = Hynod o Bwysig
2 = Pwysig Iawn
3 = Pwysig
4 = Eithaf Pwysig
5 = Ddim yn Bwysig
D/B = Dim Barn

Cwestiwn 2

'Dyma fy marn ar bwysigrwydd pob un o'r pum Amcan Gwella sydd wedi'u nodi isod'.

Amcan Gwella	**1** Hynod o Bwysig	**2** Pwysig Iawn	**3** Pwysig	**4** Eithaf Pwysig	**5** Ddim yn Bwysig	**D/B** Dim Barn
Cysuro, addysgu a diogelu ein Cymuned rhag effeithiau tân, gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd ac argyfyngau eraill pan fyddant yn digwydd.						
Parhau i ddatblygu gweithlu ymatebol a chreadigol sy'n ymarfer ein gwerthoedd.						
Sicrhau bod ein hadnoddau a'n hasedau'n cael eu defnyddio'n effeithiol ac yn effeithlon er mwyn cefnogi darparu gwasanaeth.						
Gwella prosesau busnes mewnol i sicrhau'r defnydd mwyaf effeithiol ac effeithlon o adnoddau ariannol ac adnoddau dynol.						
Hyrwyddo sefydliad cynaliadwy sy'n cyfrannu at gymunedau lleol cynaliadwy.						

Cwestiwn 3

'Dyma fy marn ar bwysigrwydd pob prosiect sydd wedi'i nodi isod'

Amcan Gwella	**1**	**2**	**3**	**4**	**5**	**D/B**
	Hynod o Bwysig	Pwysig Iawn	Pwysig	Eithaf Pwysig	Ddim yn Bwysig	Dim Barn
Gwasanaeth Tân						
Peiriannau Pwmpio Eilaidd						
Peiriannau Arbenigol						
Rheolwyr Canol a Strwythur Iwnifform Dyletswydd Dydd						
Strwythurau Sefydliadol						
Lwfansau Goramser ac Allan o Oriau						
Systemau TGCh						

Rhowch unrhyw sylwadau ychwanegol neu argymhellion ar gyfer gwelliannau yn y blwch isod. Os nad oes digon o le, mae croeso i chi ddefnyddio tudalen ychwanegol.

Amcanion Gwella

Prosiectau

Diolch am dreulio amser yn cwblhau'r arolwg hwn, rydym yn gwerthfawrogi eich mewnbwn a bydd yn cael ei ddefnyddio i'n helpu i barhau i wella'n gwasanaethau ar gyfer ein cymunedau.

Mae'r ddogfen hon ar gael mewn fformatau ac ieithoedd gwahanol gan gynnwys Braille, sain, Iaith Arwyddion Prydain a Hawdd ei Ddarllen.

Os hoffech unrhyw wybodaeth mewn fformat arall rhowch wybod i ni.

Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru,
Parc Busnes Forest View, Llantristant, CF72 8LX

www.decymru-tan.gov.uk

01443 232000

dogfen wedi'i chynllunio'n fewnol gan design*and*print - 6143/PP - Ebrill 2011